OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 245

## Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012

## RHAN 1

Cyflwyniad

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 27 Chwefror 2012.

### Ystyr "marchnata"

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "marchnata" ("*marketing*") yw gwerthu, dal gyda golwg ar werthu, cynnig ar werth neu unrhyw waredu, cyflenwi neu drosglwyddo i drydydd partïon, sydd, ym mhob achos, yn amcanu i elwa'n fasnachol ar hadau, boed yn gyfnewid am gydnabyddiaeth ai peidio.

(2) Ond nid yw marchnata'n cynnwys masnachu nad yw'n amcanu i elwa'n fasnachol, megis—

(a) cyflenwi hadau i gyrff profi ac archwilio swyddogol; neu

(b) cyflenwi hadau i berson sy'n darparu gwasanaethau prosesu ond nad yw'n caffael teitl i'r hadau.

### Dehongli termau eraill

**3.**—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) "Rhestr Genedlaethol y Deyrnas Unedig" ("*United Kingdom National List*") yw'r rhestr o amrywogaethau planhigion a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001(**1**);

(b) y "Catalog Cyffredin" ("*Common Catalogue*") yw'r catalog y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/53/EC ar y catalog cyffredin o amrywogaethau o rywogaethau planhigion amaethyddol(**2**) ac yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC ar farchnata hadau llysiau(**3**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae pob cyfeiriad at—

(a) Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/54/EC ar farchnata hadau betys(**4**),

(b) Cyfarwyddeb y Cyngor 66/402/EEC ar farchnata hadau ŷd(**5**),

(**1**) O.S. 2001/3510, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/2949, 2007/1871, 2008/2683, 2009/1273, 2010/1195 a 2011/464.
(**2**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 (OJ Rhif L 268, 18.10.2003, t. 1).
(**3**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 33, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC (OJ Rhif L 166, 27.6.2009, t. 40).
(**4**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 12, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2004/117/EC (OJ Rhif L 14, 18.1.2005, t. 18).
(**5**) OJ Rhif L 125, 11.7.1966, t. 2309, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC (OJ Rhif L 166, 27.6.2009, t. 40).

(c) Cyfarwyddeb y Cyngor 66/401/EEC ar farchnata hadau planhigion porthiant(**6**),

(ch) Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/57/EC ar farchnata hadau planhigion olew a ffibr(**7**),

(d) Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC ar farchnata hadau llysiau,

(dd) Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/62/EC sy'n darparu ar gyfer rhanddirymiadau penodol at ddibenion derbyn amrywogaethau brodorol amaethyddol ac amrywogaethau amaethyddol sydd wedi ymaddasu'n naturiol i'r amodau lleol a rhanbarthol ac a fygythir gan erydu genetig, ac at ddibenion marchnata hadau a thatws hadyd o'r amrywogaethau brodorol ac amrywogaethau hynny(**8**),

(e) Cyfarwyddeb y Comisiwn 2009/145/EC sy'n darparu ar gyfer rhanddirymiadau penodol at ddibenion derbyn amrywogaethau brodorol ac amrywogaethau o lysiau yr arferid, yn draddodiadol, eu tyfu mewn ardaloedd a rhanbarthau penodol ac sydd dan fygythiad oherwydd erydu genetig, ac amrywogaethau o lysiau nad oes iddynt werth cynhenid o ran cynhyrchu cnydau masnachol, ond a ddatblygwyd i'w tyfu o dan amodau penodol, ac ar gyfer marchnata hadau o'r amrywogaethau brodorol ac amrywogaethau hynny(**9**), ac

(f) Cyfarwyddeb y Comisiwn 2010/60/EU sy'n darparu ar gyfer rhanddirymiadau penodol ar gyfer marchnata cymysgeddau o hadau planhigion porthiant y bwriedir eu defnyddio i ddiogelu'r amgylchedd naturiol(**10**),

yn gyfeiriadau at y Cyfarwyddebau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(**6**) OJ Rhif L 125, 11.7.1966, t. 2298, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC (OJ Rhif L 166, 27.6.2009, t. 40).

(**7**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 74, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC (OJ Rhif L 166, 27.6.2009, t. 40).

(**8**) OJ Rhif L 162, 21.6.2008, t. 13.

(**9**) OJ Rhif L 312, 27.11.2009, t. 44.

(**10**) OJ Rhif L 228, 31.8.2010, t. 10.